# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Mercher, 27 Ionawr 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
N. Skinner, Rheolwr Strategaeth Trafnidiaeth a Seilwaith
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 - 10.10 yb

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIAD 20FED HYDREF 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. CAU PRIFFORDD GYHOEDDUS GER TROED Y BRYN, ALLTWALIS

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ar gynigion i gau darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger Troed y Bryn, Alltwalis, fel y dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. Nodwyd, petai'n cael ei gymeradwyo, y byddai'r darn o'r briffordd sy'n cael ei 'gau' yn cael ei drosglwyddo'n ôl i reolaeth y tirfeddiannwr cyfagos i'w gofrestru'n gyfreithiol. Er mai'r Cyngor Sir fyddai'n talu'r gost o wneud y Gorchymyn cau, byddai'n elwa o ddileu costau cynnal a chadw a rhwymedigaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfarwyddyd i Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith gau darn o'r briffordd gyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio ger Troed y Bryn, Alltwalis, yn unol ag Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**